# The Noise App

## Canllaw i Ddefnyddwyr

www.thenoiseapp.com

**Lawrlwytho**

Er mwyn lawrlwytho'r ap, ewch i'r *"App Store"* os ydych yn ddefnyddiwr iPhone neu'r "Play Store" os ydych yn ddefnyddiwr Android. Chwiliwch am *"The Noise App"* a thapiwch ar *"Get"* neu "*Install*" er mwyn lawrlwytho'r ap. Chwiliwch am *"The Noise App RHE"* ar gyfer dyfeisiau Android a dewiswch *"Install"* ar ôl dewis yr ap.

**Cofrestru**

Agorwch yr ap a chliciwch ar *"Get Started"* ac yna ar *"Create an Account"*. Os ydych chi'n rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol/cyngor, asiantaeth gorfodi neu gymdeithas tai, dewiswch *"Report a Noise Problem"*. Llenwch y manylion a dewiswch eich Darparwr Gwasanaeth o'r gwymplen. Cytunwch i delerau'r gwasanaeth a chliciwch *Create Account*. Bydd e-bost yn cael ei hanfon at eich cyfeiriad e-bost yn gofyn i chi gadarnhau'ch cyfrif. Ar ôl i'ch cyfrif gael ei gadarnhau, gallwch ddechrau cyflwyno adroddiadau.

Ar ôl i'ch cyfrif gael ei gadarnhau, mewngofnodwch i'r ap ar eich ffôn. Bydd hwn yn gofyn i chi deipio'ch cyfeiriad a chwblhau'r broses gofrestru.

Os ydy'ch Darparwr Gwasanaeth yn cynnal polisi wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw, byddwch chi'n cael gwybod trwy e-bost ac ar ddiwedd pob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno nad ydych eto wedi cael cadarnhau gan eich Darparwr Gwasanaeth. Bydd eich adroddiadau'n parhau i gael eu storio ar eich dyfais ond er mwyn iddynt gael eu hymchwilio, rhaid i chi gysylltu â'ch Darparwr Gwasanaeth a gofyn iddynt eich cymeradwyo.

**Iaith**

Er mwyn newid yr iaith, ar ôl i chi fewngofnodi dewiswch fotwm y ddewislen ar ben chwith uchaf y sgrin "Dyddiadur Sŵn". Fe welwch y dewis "Iaith" a gallwch ddewis yr iaith a ddymunwch fan hyn.

**Cyflwyno cwyn**

1. **Recordio** - Ar ôl mewngofnodi am y tro cyntaf i ddechrau recordio, gwasgwch yr eicon siâp cylch ar ochr waelod y sgrin. Ar y dudalen nesaf, tapiwch a daliwch yr eicon siâp cylch er mwyn dechrau recordio. Nid oes rhaid i chi recordio'r digwyddiad i gyd - dim ond ciplun cynrychioliadol o'r sŵn wrth iddo ddigwydd. Gallwch recordio hyd at 30 eiliad ac os oes angen, gallwch wneud sawl recordiad, pob un yn 30 eiliad i'w hychwanegu at yr un achos.
   (Wrth recordio ar iPhone, fe welwch donffurf ynghyd ag amserydd sy'n symud ar draws y sgrin. Bydd y cyfrifydd yn cyfrif hyd at 30 ar ddyfeisiau Android.)
   Pan fyddwch yn tynnu'ch bys neu fys bawd, bydd yr ap yn stopio recordio. Derbyniwch, gwrthodwch neu chwaraewch y recordiad yn ôl.

2. **Parhad** – I ddechrau, pa mor hir mae'r niwsans wedi effeithio arnoch chi? Dewiswch y parhad ar y sgrin mewn oriau/munudau/eiliadau.
3. **Ffynhonnell** – Nesaf, pa fath o sŵn ydyw? Sgroliwch a dewiswch ffynhonnell o'r rhestr a ddarperir.
4. **Lleoliad** – Nesaf, ble recordioch chi'r sŵn? Dewiswch ardal o'ch eiddo o'r rhestr a ddarperir a symudwch ymlaen at y sgrin nesaf.
5. **Dwyster a sylwadau** – Yna gofynnir i chi raddio'r sŵn o ran pa mor uchel ydych chi'n ystyried yw'r sŵn. Oddi tano cewch ychwanegu sylw o ran sut mae'r sŵn yn effeithio arnoch chi, er enghraifft, gallech ddatgan "gwnaeth y sŵn fy neffro ac mae'n fy atal rhag mynd nôl i gysgu". Mae'r wybodaeth am sut mae'r sŵn yn effeithio arnoch chi'n bwysig iawn felly ceisiwch ychwanegu cymaint o wybodaeth â phosibl.
6. **Cyfeiriad –** Yn olaf, teipiwch y cyfeiriad y credwch y bod y **Ffynhonnell Sŵn yn dod ohono.**
7. **Cadarnhad -** Os ydych chi'n hapus â'r wybodaeth a gyflwynwyd ar y sgrin cadarnhau, pwyswch y "botwm anfon adroddiad". Os ydy'ch Darparwr Gwasanaeth yn rhedeg polisi a gymeradwyir ymlaen llaw, byddwch yn cael gwybod ar y cam hwn yn lle. (oni ei fod yn y modd all-lein lle byddwch yn cael e-bost yn datgan hyn pan fyddwch yn ailgysylltu â'r Wi-Fi neu'n adennill 3G/4G)
8. **Sgrin Dyddiadur Sŵn -** Bydd eich cofnod cyntaf yn llenwi'ch sgrin dyddiadur sŵn (sgrin gartref yr ap). Bydd yr adroddiad mwyaf newydd yn ymddangos ar ben ucha'r sgrin bob amser gyda'ch holl adroddiadau blaenorol wedi'u rhestru isod.
   Ar ochr chwith eich adroddiad newydd ei gyflwyno, byddwch yn dod o hyd i symbol. 1) dwy saeth mewn ystum troelli (↻), sy'n golygu ei fod yn parhau i uwchlwytho a bydd angen i chi adael yr ap ar agor i gwblhau. Bydd angen i chi hefyd allu cadarnhau hyn trwy'r cylch llwytho'n troelli ym mhen uchaf llaw dde'r ap. 2) tic mewn cylch (✔), mae hyn yn golygu bod yr adroddiad wedi'i uwchlwytho'n llwyddiannus i'ch Darparwr Gwasanaeth.
   Os dewiswch un o'r cofnodion yn y dyddiadur, byddwch yn mynd at ddwy sgrin - y sgriniau **"manylder"** a **"gweithgarwch".**
   Newidiwch rhwng y sgriniau manylder a gweithgarwch gan ddefnyddio'r tabiau ar y top.
9. **Sgrin Manylder –** mae'n darparu crynodeb o'r wybodaeth yn ymwneud â'r cofnod dyddiadur penodol a ddewiswyd gennych. (Sylwch: nid ydym yn darparu cyfleuster chwarae'n ôl o'r recordiad i ddefnyddwyr. Ar ôl cyflwyno, dim ond y swyddog ymchwilio all droi at y rhain).
   Ar waelod y sgrin hon, fe welwch *"Add Recording"*. Dyma ble gallwch barhau i ychwanegu recordiadau at gŵyn sydd eisoes yn mynd rhagddo i helpu adeiladu'ch achos.
10. **Sgrin Gweithgareddau** – fe welwch grynodeb o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cofnod hwnnw gennych chi a chan swyddog ymchwilio. Cewch hefyd ychwanegu a chael negeseuon gan eich ymchwilydd ar y dudalen hon.

11. **Beth nesaf?** – Pan fyddwch yn mewngofnodi nesaf, eir â chi at eich dyddiadur sŵn. Ewch ymlaen i wneud recordiadau a chofnodion cyhyd ag y mae'r broblem yn parhau.